CFfI Llanddeiniol

Newyddion 2008

Eisteddfod y Sir 2008

Bu aelodau CFfI Llanddeiniol yn fishi iawn yn ystod pythefnos olaf mis Hydref yn paratoi gogyfer a'r Eisteddfod.
Ar nos Iau 30 Tachwedd dechreuodd y cystadlu yng Ngholeg y Celfyddydau Llanbed. Llongyfarchiadau i Huw ar ddod yn 2il yn yr Unawd Offerynnol ac i Andrew a Gethin am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth deialog digri ar y pryd. Ymddangosodd dros ugain o aelodau'r clwb ar lwyfan yn y Meimio i Gerddoriaeth - y testun oedd M, a'r aelodau yn meimio i fedley o ganeuon y muppets. Aled oedd Kermit ac Andrew yn Miss Piggy a phob un o'r aelodau eraill a chymeriad i chware. Da iawn i bawb am feimio a symud cystal!
Ar y dydd Sadwrn wedyn bu Ffiona yn cystadluu yn yr unawd sioe gerdd, Ffion a Ffiona yn canu'r ddeuawd Cwsg Osian ac Anwen, Ffion, Ffiona, Gwenllian, Betsan ac Anwen yn canu Rho dy Law yn y gystadleuaeth Ensemble. I ddiweddu'r cystadlu i'r clwb yn yr Eisteddfod gwelwyd yr aelodau yn perfformio Can Actol ar y thema Hud a Lledrith. Gobeithio iddynt fwynhau'r profiad ac yn sicr roedd pawb wedi mwynhau ei wylio.

Rali'r Sir 2008

Llond lle o gystadlu ar Fferm Pant y Defaid, Pontsian ac aelodau Llanddeiniol yn llawn brwdfrydedd.
Yn y bore bach bu Enfys, Rhodri, Ffion a Gethin yn hyrwyddo'r Ariannin yn y gystadleuaeth Canllaw Bras gan ddod i'r 4ydd safle. Yna tro criw cystadlaethau'r aelodau oedd hi: Nerys Morfa yn cipio'r 2il wobr yn y crefft wedi iddi greu dol zulu fel anrheg o Affrica; Betsan Penrallt a Gwenno Tudor yn creu pryd campus i ddau o'r Eidal gan ddod yn fuddugol; Lowri Tudor yn gosod blodau yn gelfydd i gyrraedd y 7fed safle a sicrhau fod CFfI Llanddeiniol yn ennill cystadlaethau'r aelodau. Da iawn ferched.
Y ddwy Anwen fu wrthi yn creu collage o dirnod enwog gan ddefnyddio darnau man o hen gylchgronnau. Roedd angen tipyn o amynedd ond roedd pob munud yn werth yr ymdrech gyda St Basils Cathredal yn cael ei ddyfarnu yn 2il yn y gystadleuaeth.
Gareth, Bleddyn a Caryl fu'n barnu charolais a llongyfarchiadae mawr iddynt ar gyrraedd y 3ydd safle fel tim.
Wythnos cyn y rali bu Aled a Sion ym Mhontsian ar gyfer rhan 1 y gystadleuaeth ffotograffiaeth ac ar ddiwrnod y rali y dasg oedd cyflwyno'r lluniau. Da iawn fois ar ddod yn 8fed mewn cystadleuaeth o safon uchel a 14 o dimau yn cystadlu.
Y ddau frawd fu wrthi yn crefftio giat a'r gwaith o safon uchel wedi plesio'r beirniad gan iddynt gipio'r wobr gyntaf. Llongyfarchiadau Emyr a Gareth.
Pert iawn yw'r unig eiriau i ddisgrifo Eleri Wyn wedi iddi gael ei wisgo i fyny yn bictiwr gan Sara a Lisa yn y gystadleuaeth Gwisgo Arweinydd. Seniorita Eleri yn cipio'r wobr gyntaf i'r merched.
Daeth amser cystadleuaeth diwethaf y dydd a dyna oedd tipyn o garnifal - Rownd y Byd mewn 5 munud. Glyn o Sbaen, Daniel o Awstria, Rhodri o Morroco, Bleddyn o Dde Affrica, Betsan o India, Ffiona o Tsiena, Gethin o Seland Newydd, Nerys o'r Ynysoedd Cook, Anwen o Brasil a Gwenno o'r UDA gyda Ffion yn cadw trefn arni nhw gyd gyda'i bws mawr coch a'i sylwebaeth o safon uchel. Sbort a sbri gyda'r criw yn canu a dawnsio yn y cylch i fedli o ganeuon hwylus.
Llongyfarchiadau mawr i bob aelod a fu'n cystadlu ar y diwrnod gan yw ymdrechion nhw sicrhau fod CFfI Llanddeiniol yn 4ydd ar ddiwedd y dydd. Canlyniad gwych yn goron a'r flwyddyn lewyrchus arall. Coron hefyd oedd am ben Enfys wedi iddi gael ei choroni yn frenhines y sir.
Yn ol yr arfer rhaid diolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda pharatoadau'r rali - mae cymroth pawb bob amser yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

HANNER AWR ADLONIANT

CFfI Llanddeiniol yn llwyfannu Bywyd y Bocs - hanner awr o adloniant a welodd gynnwys bocs eiddo coll yn dod yn fyw o flaen llygaid y gynuilleidfa. Roedd yn dipyn o sioe a'r aelodau wedi cydweithio am nifer o wythnosau yn arwain i fyny at y perfformiad er mwyn paratoi ar gyfer y noson fawr. Gwefr oedd clywed fod CFfI Llanddeiniol yn gydradd 3ydd yn y gystadleuaeth - tipyn o gamp a chael y cyfle i gamu ar lwyfan y Theatr yn Felinfach unwaith yn rhagor.